# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Sybil Crouch | Adran Etholiadol: | Y Castell |
|---|---|---|---|

| **Portffolio Cabinet/Gweithrediaeth** | Cynaladwyedd tan 16 Medi 2014 |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Ynghyd â chynghorwyr eraill Ward y Castell, euthum i'r cymorthfeydd wythnosol a gynhaliwyd ar fore Sadwrn ym Mrynmelin, y Marina, Sandfields a Dyfaty. Yn ychwanegol, euthum i gyfarfodydd preswylwyr a PACT (Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd) Brynmelin/Waun Wen, Mount Pleasant, y Marina a Sandfields.

Ymatebais ac ymdriniais â nifer o faterion preswylwyr, gan gynnwys cwynion am wastraff, parcio, glanhau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, trafnidiaeth, traffig, priffyrdd etc.

Roeddwn, ac rwy'n parhau i fod, yn llywodraethwr yn Ysgol Heol Teras. Euthum i gyfarfodydd y swyddfa dai ranbarthol i glywed am faterion tenantiaid.

Euthum i gyfarfodydd ynghylch Ardal Adnewyddu Tai Sandfields.

Roeddwn yn ymddiddori'n fawr ac rwy'n parhau i ymddiddori'n fawr yng Ngardd Gymunedol Llysiau'r Vetch sy'n dod ag amrywiaeth eang o bobl ar draws Sandfields at ei gilydd.

Rwyf wedi ymddiddori'n fawr mewn materion cynllunio sy'n gysylltiedig â'm ward.

Euthum i nifer mawr o gyfarfodydd Cymunedau'n Gyntaf – gan fod Ward y Castell mewn 2 ardal clwstwr (De – Sandfields a'r Gogledd-orllewin – Waun Wen/Brynmelin). Rwyf wedi cyfarfod â'r heddlu a PCSOs (Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu) i drafod materion trwyddedu, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Euthum i gyfarfodydd Grŵp Llywio Celf y Rhodfa.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgorau:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Y Cabinet | 5 | / | 5 | 100 | % |
| Pwyllgor Arfarnu a Thaliadau Cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Y Cyngor | 10 | / | 17 | 59 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 5 | / | 7 | 71 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar yr Economi a Buddsoddi | 1 | / | 3 | 33 | % |
| Panel Ariannu Allanol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 9 | / | 12 | 75 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 3 | / | 3 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **41** | **/** | **56** | **73** | **%** |
| | | | | | |
| Cyfarfodydd Craffu | | | | | |
| Gweithgor Craffu Cynaladwyedd | 0 | / | 1 | 0 | % |
| **CYFFREDINOL** | **0** | **/** | **1** | **0** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Aelod o Bwyllgor y Rhaglen Graffu.

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Fel Aelod y Cabinet dros Gynaladwyedd, roeddwn yn parhau i hyrwyddo datblygiad y Cynllun Gwresogi Ardal a dilyniant fy menter fy hun i ddatblygu Cynllun Ynni Adnewyddadwy a Menter Cymunedol (CREES) a oedd yn cynnwys paneli solar ar adeiladau cymunedol mewn ardaloedd targed a chwilio am gynllun mwy i roi paneli solar ar eiddo preswyl y cyngor gyda golwg ar ddatblygu sgiliau lleol, lleddfu tlodi tanwydd etc. Roeddwn yn ymddiddori'n fawr mewn datblygu llwybrau beicio a chyfleusterau, gan gyfarfod yn rheolaidd â sefydliad Wheelwrights Abertawe a chysylltu â Sustrans.

Roeddwn yn parhau i bwyso am gamau gweithredu sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n ymdrin â chamddefnyddio sylweddau gyflogi swyddog cyswllt â'r gymuned i fynd i'r afael ag effaith y fath eiddo ar breswylwyr lleol.

Roeddwn yn parhau i hyrwyddo gwaith a ddechreuais ynghylch cynlluniau tyfu cymunedol i gynorthwyo pobl mewn ardaloedd difreintiedig i dyfu bwyd a bwyta'n iach. Roeddwn yn gadeirydd y panel Tyfu'n Lleol sy'n dyrannu grantiau bach i grwpiau cymunedol ac ysgolion.

Roeddwn yn gadeirydd menter sy'n cynnwys sefydliadau celfyddydau gyda golwg ar ddatblygu gweithgarwch diwylliannol i gefnogi menter y Faner Borffor.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Roeddwn yn parhau i bwyso am newid mewn Gorchmynion Dosbarthiadau Defnydd i ddod â'r holl HMO (Tai Amlbreswyl) dan yr un drefn gynllunio gyda golwg ar reoli dwysedd ac ansawdd a chyfarfûm â'r Gweinidog cyfrifol yn Llywodraeth Cymru.

Roeddwn yn gadeirydd y grŵp Datblygu Cynaliadwy - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Dinas a Sir Abertawe (DASA) ac euthum i nifer o ddigwyddiadau, gan gynnwys lansiad adroddiad "Cenhedlaeth 2050" Cenedlaethau'r Dyfodol.

Lansiais Ganllawiau i Dyfu Cymunedol DASA yr oeddwn wedi'u dechrau yn fy rôl yn y Cabinet.

Fel cynghorydd ward, a chyda chydweithwyr ward, roeddem yn llwyddiannus wrth sefydlu grŵp Parc Cyfeillion Bryn-y-Don. Roeddem yn rhan o drefnu amrywiaeth o weithgareddau i bobl ifanc, gan gynnwys barbeciwiau a syllu ar y sêr, a chymryd rhan ynddynt.

Cyfarfûm â swyddogion Cymdeithas Preswylwyr Sandfields i'w cefnogi i geisio'r cyfan o Gae'r Vetch ar gyfer hamdden gymunedol a dathliadau.

Cyfarfûm â swyddogion ac Aelod y Cabinet i bwyso am welliannau i fan gwyrdd fel rhan o'r rhaglen ailwampio ar gyfer fflatiau Stryd Crofft.

Roeddwn yn parhau i bwyso am welliannau mewn mannau gwyrdd i breswylwyr canol y ddinas a man hamdden yn benodol – Fields in Trust (FIT).

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Uwch - £32,000 Aelod y Cabinet dros Gynaladwyedd (hyd at 16 Medi 2014)
Cyflog Sylfaenol - £13,300 (o 17 Medi 2014)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LL=0

| **Dyddiad**: | 29.05.15 |
|---|---|